**Y Pwyllgor Diwylliant – CC-19-01 (p.3)**

**Dyddiad:** 5 Rhagfyr 2001

**Amser:** 9.00am – 12.30pm

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 1, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

## YR ADOLYGIAD O'R GYMRAEG: ADRODDIAD CYNNYDD

### Diben

Mae'r adroddiad cynnydd diwedd blwyddyn hwn yn rhoi'r cyfle i'r Pwyllgor:

(i) benderfynu pa faterion y mae am eu trafod ymhellach yn y sesiwn ddadansoddi gyntaf, ar 13 Mawrth 2002; a

(ii) thrafod hynt yr adolygiad gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

### Yr hyn a gyflawnwyd rhwng mis Gorffennaf a mis Rhagfyr

Ers yr adroddiad cynnydd diwethaf ar yr adolygiad (CC-13-01 P2), mae pedwar cyfarfod wedi'u cynnal ac mae 19 o gyrff ac unigolion wedi rhoi tystiolaeth i'r Pwyllgor. Erbyn 7 Rhagfyr bydd y pedwar Pwyllgor Rhanbarth wedi trafod yr adolygiad, ac mae'r pwyllgorau eraill naill ai wedi cynnal sesiwn o'r fath, neu'n bwriadu gwneud hynny. Y bwriad yw y bydd y Pwyllgor Diwylliant yn cymryd tystiolaeth am y tro olaf ar 27 Chwefror.

Un o'r prif amcanion gyda'r broses adolygu oedd bod cymaint o bobl o gymaint o sectorau â phosibl ledled Cymru yn cael y cyfle i roi tystiolaeth yn uniongyrchol i Aelodau ac/neu yn ysgrifenedig. Y gobaith yw bod cynnwys yr holl bwyllgorau pwnc a'r pwyllgorau rhanbarth, yn ogystal ag ymestyn y dyddiad cau ar gyfer sylwadau ysgrifenedig tan ddiwedd mis Tachwedd, wedi helpu yn hyn o beth.

Tameidiog fu'r ymateb, fodd bynnag. O'r mwy na 700 yr ymgynghorwyd â hwy yn ysgrifenedig tua 120 sydd wedi ymateb hyd yn hyn. Mae'r rhan fwyaf o'r rheini sydd wedi ymateb wedi cyfyngu eu sylwadau i'w cynlluniau iaith hwy eu hunain, yn hytrach nag edrych ar y darlun ehangach. Ers yr haf, mae nifer o gyrff ac unigolion oedd am gyflwyno tystiolaeth wedi tynnu'n ôl ar y funud olaf. Gallai nifer o wahanol ffactorau fod yn gyfrifol am yr ymateb hwn i'r adolygiad, ac **efallai y dylai'r Pwyllgor feddwl beth fydd effaith hynny ar ei gasgliadau terfynol.**

### Materion sy'n codi

Fel a nodir uchod, disgwylir y bydd y sesiwn werthuso gyntaf yn cael ei chynnal ar 13 Mawrth y flwyddyn nesaf. Caiff crynodeb o'r ymatebion ei baratoi erbyn y cyfarfod hwnnw ond efallai yr hoffai'r Pwyllgor ystyried a yw am gomisiynu gwaith yn awr ar rai o'r prif faterion sy'n codi. Roedd yr adroddiad cynnydd blaenorol yn nodi rhai o'r rhain sef:

- Effaith mewnfudo ac allfudo ar gadarnleoedd y Gymraeg
- Yr angen am i'r Cynulliad roi arweiniad ar yr iaith
- Yr angen am Ddeddf Iaith Newydd.

Roedd nifer o gyrff yn credu hefyd bod angen dybryd am ddata dibynadwy ar y defnydd o'r Gymraeg. Mae nodyn ar wahân wedi'i baratoi ar hyn (CC-19-01 p3a) fel y gall y Pwyllgor drafod pa ddata neu ymchwil sydd ei angen yn y tymor byr ac yn y tymor hir.

Awgrymir hefyd y byddai'n ddefnyddiol gwneud gwaith pellach ar:

- Ddiffinio dwyieithrwydd
- Gwasanaethau cyfieithu – diben a chwmpas
- Cadarnleoedd y Gymraeg v effaith unrhyw bolisi newydd ar Gymru gyfan
- Y Gymraeg fel thema trawsbynciol yng ngwaith y Cynulliad
- Pennu'r Gymraeg yn iaith genedlaethol.

**Argymhellion**

Gwahoddir y Pwyllgor i drafod a yw am ystyried y materion uchod yn ei gyfarfod fis Mawrth nesaf, neu awgrymu unrhyw faterion eraill.

**Ysgrifendyddiaeth y Pwyllgorau Tachwedd 2001**

Atodiadau Rhestr o'r dystiolaeth lafar hyd yma

Blaenraglen Waith Ionawr-Mawrth 2002

**Atodiad A**

**Tystiolaeth lafar a gyflwynwyd hyd yn hyn:**

02-05

Bwrdd yr Iaith Gymraeg - Rhodri Williams

John Walter Jones

Yr Athro Colin Williams

Yr Athro Colin Baker

16-05

Dr Mark Tewdwr-Jones (Coleg y Brifysgol, Llundain)

Dr Dylan Phillips (Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, Aberystwyth)

Yr Athro Colin Williams (Prifysgol Caerdydd)

24-05

Winston Roddick QC, Swyddfa’r Cwnsler Cyffredinol

06-06

Urdd Gobaith Cymru – Jim O’Rourke

Cyngor Llyfrau Cymru– Geraint Lewis

CYD – Jaci Taylor, Felicity Roberts

Cyngor Sir Ceredigion – Cyngh Peredur Eckland, Denver Morgan

Llyfrgell Genedlaethol Cymru – Dr Rhidian Griffiths

Clybiau Ffermwyr Ifanc Cymru – Gareth Evans Jones

<u>04-07</u>

Cefn – Eleri Carrog

Popeth Cymraeg – Ioan Talfryn

Y Ganolfan Iaith Genedlaethol, Nant Gwrtheyrn – Aled Jones Griffiths

Cyngor Sir Gwynedd – Dafydd Iwan

Cyngor Sir Ddinbych – Gwyneth Kensler

Fforwm Ddwyieithrwydd Gogledd Cymru – Melangell Tegid

<u>18-07</u>

Cymdeithas yr Iaith Gymraeg - Huw Lewis, Iwan Standley, Aled Davies, Nia Williams

Yr Eisteddfod Genedlaethol - Elfed Roberts, R Alun Ifans, Betsan Williams

<u>24-10</u>

Cyngor Dinas a Sir Abertawe - Bob Cuthill

Yr Athro Harold Carter

Mudiad Ysgolion Meithrin - Hywel Jones

CYTUN – Y Parch. Aled Edwards

Merched y Wawr - Tegwen Morris, Catrin Stephens

<u>07-11</u>

Y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol - Cherry Short, Dr Mashuq Ally

Cymuned - Magi Lewis, Dr Simon Brooks, Dewi Prysor

15-11

Awdurdod Datblygu Cymru - Gareth Hall

Bwrdd Croeso Cymru -Susan Morris

CBI Cymru - David Rosser

TUC Cymru - David Jenkins

Cyngor Bwrdeistref Sirol Casnewydd - Colin Crick

David Davies AC

21-11

Ffederasiwn y Busnesau Bach - Llewelyn Rhys

ELWa - Steve Martin, Enid Rowlands

05-12

Bwrdd yr Iaith Gymraeg

**ATODIAD B**

**Y PWYLLGOR DIWYLLIANT: BLAENRAGLEN WAITH (CYNHELIR Y CYFARFODYDD YN Y CYNULLIAD CENEDLAETHOL ONI NODIR YN WAHANOL)**

| | | |
|---|---|---|
| Dydd Mercher 9 Ionawr 2002 | 1 | Adolygiad y Pwyllgor o'r Gymraeg<br><br>Tystiolaeth gan:<br><br>BBC Cymru<br><br>Golwg<br><br>Cyngor Celfyddydau Cymru<br><br>Mercator<br><br>Cylch yr Iaith |
| Dydd Iau 17 Ionawr (pm) | 1 | Adolygiad o'r Gymraeg: sesiwn ar y cyd â'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai o bosibl – (i'w gadarnhau) |
| | 2 | Adroddiad y Gweinidog |
| Dydd Mercher 23 Ionawr<br><br>**SIOE DEITHIOL AR Y GYMRAEG** (Canolfan Gelf y Miwni, Pontypridd) | 1 | Adolygiad y Pwyllgor o'r Gymraeg<br><br>Tystiolaeth gan:<br><br>Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru<br><br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf<br><br>Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru<br><br>Menter a Busnes<br><br>Cynllun Gwbor Dug Caeredin<br><br>Mr Roy Thomas<br><br>[Imaginet] |

| | | |
|---|---|---|
| Dydd Mercher 6 Chwefror<br><br>**SIOE**<br><br>**DEITHIOL AR Y GYMRAEG (lleoliad tebygol – Y Neuadd Goffa, Pontyberem)** | 1 | Adolygiad y Pwyllgor o'r Gymraeg<br><br>Tystiolaeth gan:<br><br>Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru<br><br>Iaith Cyf<br><br>Cyngor Sir Caerfyrddin<br><br>Cyngor Sir Penfro<br><br>Mentrau Iaith |
| Dydd Iau 14 Chwefror | 1 | Adolygiad y Pwyllgor o'r Gymraeg:<br><br>S4C<br><br>Cydffederasiwn yr NHS<br><br>Cyngor Dinas a Sir Caerdydd |
| Dydd Mercher 27 Chwefror | 1 | Adolygiad o'r Gymraeg: sesiwn derfynol â Bwrdd yr Iaith Gymraeg, academyddion ac ati |
| | 2 | Adroddiad y Gweinidog |
| Dydd Mercher 13 Mawrth | 1 | Adolygiad o'r Gymraeg: Trafod a Dadansoddi |
| | 2 | Trafodaeth â'r ICT ar faterion Darlledu |
| | 3 | Amgueddfa Genedlaethol Cymru: ymgynghoriad ar arddangos gweithiau celf |
| **TORIAD Y PASG** | | |
| Ebrill-Gorffennaf 2002 | 1 | Gorffen yr Adolygiad Polisi o’r Gymraeg |
| | 2 | Dechrau’r Adolygiad Polisi ar Chwaraeon |

| | | |
|---|---|---|
| | 3 | Cyfarfod â CCNC (Diwylliannol) (8) |
| **TORIAD YR HAF** | | |
| Hyd-Rhag 2002 | 1 | Gorffen yr Adolygiad Polisi ar Chwaraeon |
| | 2 | Dechrau Adolygiad Polisi ar (x) |

[redacted]

Eitemau Eraill:

Yn ystod y misoedd nesaf bydd y Pwyllgor yn clywed cyflwyniad gan Fforwm Crefftau Cymru.